

Hysbysiad Preifatrwydd Ysgol Henblas

I fodloni gofynion Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GOPR) a ddaeth i rym 25ain o Fai 2018, mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn rhoi gwybodaeth am gasglu a phrosesu gwybodaeth bersonol disgyblion, a gwybodaeth am eu perfformiad, gan Lywodraeth Cymru, CYNGOR SIR YNYS MÔN (Awdurdod Addysg Leol) ac YSGOL HENBLAS.

Mae'n ofynnol i ysgolion roi Hysbysiad Preifatrwydd i ddisgyblion a/neu rieni sy'n crynhoi'r wybodaeth sy'n cael ei chadw ar gofnod am ddisgyblion, y rhesymau pam ei bod yn cael ei chadw, a manylion y trydydd partïon y ceir trosglwyddo'r wybodaeth honno iddynt. Ysgol Henblasr yw'r rheolwr data at bwrpas y Ddeddf Diogelu Data.

Casglu Gwybodaeth Bersonol:

Mae'r ysgol yn casglu gwybodaeth am ddisgyblion a'u rhieni neu warcheidwaid cyfreithiol wrth iddynt gofrestru gyda'r ysgol. Mae'r ysgol hefyd yn casglu gwybodaeth ar adegau allweddol eraill yn ystod y flwyddyn ysgol. Bydd yr ysgol hefyd yn cael gwybodaeth o ysgolion eraill pan fydd disgyblion yn symud ysgol.

Pam yr ydym yn casglu a defnyddio'r wybodaeth?

Caiff yr Ysgol, yr AALI a Llywodraeth Cymru rannu'r wybodaeth a gedwir am ddisgyblion, eu rhieni neu eu warcheidwaid cyfreithiol gyda chyrff eraill pan fydd y gyfraith yn caniatáu hynny. Mae'r Ysgol yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir i weinyddu'r addysg y mae'n ei darparu i ddisgyblion. Er enghraifft:

- i ddarparu gwasanaethau addysgol i unigolion.
- i fonitro ac adrodd am gynnydd addysgol y disgyblion.
- i ddarparu gwasanaethau lles, gofal bugeiliol a gwasanaethau iechyd.
- i roi cefnogaeth ac arweiniad i ddisgyblion, rhieni a gwarcheidwaid cyfreithiol.
- i gydymffurfio â'r gyfraith ynglŷn â rhannu data
- i rannu data ar gyfer archwiliadau statudol a dibenion archwilio
- trefnu digwyddiadau a theithiau addysgol.
- cynllunio a rheoli'r ysgol.

Dyma'r math o wybodaeth bersonol a gedwir:

- manylion personol megis enw, cyfeiriad, dyddiad geni, côd adnabod y disgybl a manylion cyswllt rhieni a gwarcheidwaid.
- gwybodaeth am berfformiad mewn asesiadau, profion ac arholiadau mewnol a chenedlaethol.
- gwybodaeth am dras ethnig a chenedligrwydd disgyblion (dim ond er mwyn paratoi dadansoddiadau ystadegol cryno y defnyddir y wybodaeth hon).
- manylion am statws mewnfudo disgyblion (dim ond er mwyn paratoi dadansoddiadau ystadegol cryno y defnyddir y wybodaeth hon).

- gwybodaeth feddygol sydd ei hangen i gadw'r disgyblion yn ddiogel tra bônt dan ofal yr ysgol.
- gwybodaeth am bresenoldeb ac am unrhyw gamau disgyblu a gymerwyd.
- gwybodaeth am unrhyw gysylltiad rhwng y gwasanaethau cymdeithasol a disgyblion unigol, lle bo angen gwybod hynny er lles y disgybl.

Y sail gyfreithiol i ddefnyddio'r wybodaeth:

Rydym yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth am ddisgyblion er mwyn cwrdd â gofynion cyfreithiol a diddordebau cyfiawn fel y'u pennir yn y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a'r Ddeddf Diogelu Data 2018, sy'n cynnwys y rheiny sy'n berthnasol i'r canlynol:

- Erthygl 6 ac Erthygl 9 o'r GDPR;
- Deddf Addysg (Cymru) 2014;
- Rheoliadau Gwybodaeth am Ddisgyblion (Cymru) 2011.

Casglu gwybodaeth am ddisgyblion:

Er bod y mwyafrif o wybodaeth am y disgyblion a gesglir yn orfodol, mae peth gwybodaeth a ddarperir ar sail wirfoddol. Er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data, byddwn yn eich hysbysu os yw'r wybodaeth yn orfodol neu'n wirfoddol.

Cadw gwybodaeth am ddisgyblion:

Byddwn yn cadw data personol am ddisgyblion am gyfnodau amrywiol o amser yn dibynnu beth yw'r wybodaeth. Byddwn yn dinistrio'r wybodaeth yn ddiogel yn unol ag amserlenni cadw'r Awdurdod Lleol.

Gellir rhannu gwybodaeth a gedwir gan yr Ysgol, yr Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru ar blant a phobl ifanc a'u rhieni neu eu gwarcheidwaid cyfreithiol â sefydliadau eraill pan fydd y gyfraith yn caniatáu, er enghraifft:

- Cyrff addysg a hyfforddiant eraill, gan gynnwys ysgolion, pan fydd disgyblion yn gwneud ceisiadau am gyrsiau, hyfforddiant, trosglwyddo ysgol neu chwilio am arweiniad ar gyfleoedd, ee Byrddau Arholi, Profion Cenedlaethol (LC), Estyn, GWE, HWB, Cynnal, Awdurdod Lleol (Gwaharddiadau/TRAC/Cynllun Cynhwysiad Pecyn 25)
- Cyrff sy'n gwneud gwaith ymchwil i LC, ALI ac ysgolion, cyhyd â bod camau yn cael eu cymryd i ddiogelu'r wybodaeth, ee CYNNAL, CYBLD, DEWi, GWE, HWB;
- Llywodraeth ganolog a lleol ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau addysgol, ee CAPITA, CYNNAL, GWE, HWB;
- Gwasanaethau cymdeithasol a sefydliadau iechyd a lles eraill lle mae angen rhannu gwybodaeth i warchod a chefnogi plant a phobl ifanc unigol, ee GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, GWASANAETH IECHYD, CAMHS, GOFALWYR IFANC ayyb;
- Cyrff rheoleiddio amrywiol, fel ombwdsmyrn, awdurdodau arolygu a mentrau twyll gan y Llywodraeth, lle mae'r gyfraith yn mynnu bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo fel y gallant wneud eu gwaith, ee ARCHWILWYR MEWNOL, ESTYN, HEDDLU, LLYSOEDD, TRIBIWNLISOEDD, ayyb

- Darparwyr Gwasanaeth a Chyflenwyr dan gytundeb, i alluogi cyflenwi cytundeb/gwasanaeth ee Caterlink, Schoolcomms, System Apwyntiadau Noson Rhieni ar-lein, HWB, ayyb

Eich hawliau dan GDPR:

- Mae gan ddisgyblion hawliau penodol o dan y Ddeddf Diogelu Data, gan gynnwys hawl gyffredinol i gael gweld data personol a gedwir amdanynt gan unrhyw "reolydd data". Rhagdybir, erbyn bod plant yn 12 mlwydd oed, eu bod yn ddigon aeddfed i ddeall eu hawliau ac i gyflwyno cais eu hunain i weld yr wybodaeth, os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Fel arfer, os yw'r plentyn yn iau, disgwylir i riant wneud cais ar ran y plentyn.

Mae gennych yr hawl i:

- Gael mynediad i'r wybodaeth personol y mae'r ysgol a'r Awdurdod Lleol yn ei phrosesu amdano;ch;
- Ofyn i'r ysgolion neu'r Awdurdod Lleol gywiro anghywirdebau yn y wybodaeth honno;
- Yr hawl (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu prosesu am resymau sy'n ymwneud â'ch sefyllfa benodol chi
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu (o dan rai amgylchiadau)
- Gyflwyno cwyn i'r comisiynydd gwybodaeth, sef y rheolydd annibynnol ar gyfer diogelu data. Am ragor o wybodaeth am y wybodaeth a ddeler gan yr ysgol a'r Awdurdod Lleol, a sut y caiff ei defnyddio, neu os ydych chi'n dymuno ymarfer eich hawliau dan y GDPR, gweler y manylion cyswllt isod:

Ffôn: 01248 723944

E-bost: ysg2156@ynysmon.gov.uk

I gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, gweler y manylion isod:

Information Commissioner's Office – Wales 2nd Floor, Churchill House Churchill Way Cardiff CF10 2HH

Llinell gymorth: 0330 414 6421 (llinell gymorth Cymru) neu 0303 123 1113 (llinell gymorth y DU)

E-bost: wales@ico.org.uk Gwefan: www.ico.org.uk